

# Cod Ymddygiad Cyfryngau Cymdeithasol



Mae gan Gyngor Bro Morgannwg bedwar cyfrif cyfryngau cymdeithasol corfforaethol, '@VOGCouncil' a '@CBroMorgannwg' ar Twitter, 'Vale of Glamorgan Life' a 'Cyngor Bro Morgannwg' ar Facebook.

Rydym yn defnyddio'r cyfrifon hyn i rannu gwybodaeth â phreswylwyr neu ymwelwyr â Bro Morgannwg.

Mae aelodau'r tîm cyfathrebu fel arfer yn monitro'r cyfrifon hyn yn ystod oriau swyddfa.

Mae ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol yn anwleidyddol, felly ni fyddwn yn cymryd rhan mewn sgysiau gwleidyddol.

Mae gan y mwyafrif o gymunedau ar-lein eu canllawiau eu hunain i gydymffurfio â hwy. Rydym hefyd yn defnyddio'r offerynnau sydd ar gael i ni fel hidlyddon, i gael gwared ar neu amlygu unrhyw gynnwys a allai gael ei ystyried yn niweidiol, ymosodol neu anghyfreithlon.

Hefyd, rydym yn cadw'r hawl i dynnu neu ofyn i unrhyw gynnwys ar Facebook neu Twitter gael ei dynnu os ydyn ni'n o'r farn ei fod:

- aflonyddol;
- sarhaus;
- difriol;
- ymosodol;
- niweidiol;
- brwnt;
- â thôn rhywiol; neu
- yn ymosodol hiliol.

Bydd angen i ni 'flocio' defnyddwyr bob hyn a hyn os byddant yn gwrthod dilyn y canllawiau hyn a/neu ddim yn ymateb i geisiadau i dynnu negeseuon sy'n dod dan y categorïau uchod.